



Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Briff Ymarfer 2
Ymchwil ac ymarfer
seiliedig ar dystiolaeth

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Un agwedd ar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yw defnyddio ymchwil yn y llys – dylai fod yn sail i bob agwedd ar eich gwaith gyda theuluoedd a phlant, ac nid rhywbeth i'w 'ychwanegu' yn y llys. Bydd y briff ymarfer hwn yn eich helpu i:

- > Fyfyrio a gwella eich dealltwriaeth o'r hyn y mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn ei olygu.
- > Myfyrio a gwella eich dealltwriaeth o'r hyn y mae ymchwil yn ei olygu, ac ystod yr ymchwil a fydd yn berthnasol.
- > Meddwl pam y mae'n bwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio ymchwil a sut y byddant yn gwneud hynny.
- > Meddwl pa mor dda mae eich sefydliad yn cefnogi defnyddio ymchwil.
- > Gwybod ble i fynd i ddod o hyd i ymchwil.

Y prif negeseuon

- > Mae ymarferydd sy'n gweithio ar sail tystiolaeth yn myfyrio; mae'n gwranddo ar leisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd ac yn eu cofnodi'n gywir; mae'n gweithio drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau ac effaith y gefnogaeth y mae'n ei darparu a sut y bydd y rhain yn cael eu monitro dros gyfnod; mae'n gofyn cwestiynau heriol am ymarfer ac mae'n gwybod sut i ddod o hyd i ymchwil a sut i'w ddefnyddio.
- > Mae cael y sgiliau a'r wybodaeth i wneud arfarniad beirniadol o ddulliau a chanfyddiadau astudiaethau ymchwil yn hollbwysig.
- > Wrth ddefnyddio ymchwil yn ei dystiolaeth llys, rôl y gweithiwr cymdeithasol yw helpu'r llys i ddod i benderfyniad sydd er pennaf les y plentyn – nid argyhoeddi'r llys bod ei safbwynt yn un dilys.

Defnyddio ymchwil yn y llys ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Mae defnyddio ymchwil yn y llys yn rhywbeth y byddai'n anodd iawn ei wneud yn dda oni bai fod ymchwil hefyd wedi dylanwadu ar y gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau sydd y tu ôl i gais i'r llys. Nid yw 'ôl-osod' ymchwil mewn adroddiadau llys (er enghraifft, torri a gludo paragraff am

effeithiau trais domestig o un adroddiad i un arall, heb roi sylw i amgylchiadau unigol yr achos) yn ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

Os bydd angen achos gofal, bydd gweithwyr cymdeithasol yn cyflwyno argymhellion sy'n debygol o olygu newid sylweddol (a pharhaol yn aml) ym mywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol – a'r gweithiwr cymdeithasol fel ei gynrychiolydd – yw gwneud argymhellion ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael o'r hyn sy'n debygol o arwain at y canlyniad gorau (neu'r un lleiaf niweidiol). Fel arall, nid yw ein gweithredoedd yn ddim mwy nag arbrofion i helpu – ac yn waeth byth, mae'n bosibl i ni wneud niwed sylweddol. Nid yw bwriadau da yn ddigon.

Ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn dod â'r canlynol at ei gilydd:

- > tystiolaeth o ymchwil
- > gwybodaeth a phrofiad o ymarfer
- > barn, profiadau a gwerthoedd unigolion a beth fyddai'n well ganddynt ei weld.

Gall ymchwil ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- > pa mor gyffredin yw rhywbeth
- > yr amgylchiadau neu'r nodweddion sy'n arwain ato

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

- > pwy sy'n cael eu heffeithio a beth yw eu profiad
- > sut mae'n effeithio ar ganlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- > ymyriadau effeithiol ac i bwy maen nhw yn 'gweithio' neu ddim yn 'gweithio'.

Er hyn, nid yw ymchwil byth yn dangos effaith unffurf problem neu ymyriad – nid oes gan unrhyw fater cymdeithasol effaith gwbl ragweladwy ac nid oes un ymyriad sy'n gweithio i bawb. Felly'r allwedd i ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yw rhyngweithiad tystiolaeth ymchwil ag arbenigedd ymarfer a dealltwriaeth o bob plentyn neu deulu unigol. Fel y dywed Petr:

Ni ddylai gweithwyr cymdeithasol gymhwyso neu orfodi canfyddiadau ymchwil i bob cleient unigol yn ddifeddwl. Yn hytrach, dylent ddefnyddio eu profiad eu hunain, yn ogystal â dewisiadau'r cleient i barchu hawl y cleient i benderfynu drosto'i hun. (Petr, 2009)


Yn y llys, mae'r rhyngweithiad priodol hwn rhwng tystiolaeth ymchwil, arbenigedd ymarfer ac amgylchiadau plentyn a theulu unigol yn cael ei adlewyrchu yn sylwadau Syr Ernest Ryder yn achos S-F (Plentyn) [2017] Civ

964¹, sy'n cael ei ystyried ym Mwletin Cyfreithiol AFA Cymru (Hydref 2017)²:

Mae'r Llys Apêl yn atgoffa ymarferwyr 'er mwyn gallu dylanwadu ar benderfyniadau, dylai'r cynnig bod mabwysiadu er pennaf les y plentyn drwy gydol ei oes, a'i fod yn ddewis gwell na maethu hirdymor, gael ei gefnogi gan farn gwaith cymdeithasol yn deillio o ddadansoddiad lles sy'n ymwneud â'r plentyn,' ac, 'os yw'n briodol, gellir dibynnu ar gasgliadau deunydd ymchwil wedi'i ddilysu'n empirig i gefnogi'r dadansoddiad lles, er enghraifft: ymchwil i ymarferoldeb a llwyddiant gwahanol fathau o leoliadau hirdymor drwy gyfeirio at oed, cefndir, nodweddion cymdeithasol neu feddygol.' (para 9)

¹ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed178832

² Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru: www.afacymru.org/index.php/en/professionals/legal-en/afa-cymru-legal-bulletins/267-autumn-2017-legal-bulletin



Bowyer (2012), adapted from Barlow and Scott (2010)

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

OFFERYN 1

Defnyddiwch yr offeryn hwn i gofnodi'r wybodaeth rydych yn ei datblygu a'r hyn rydych yn ei ddysgu ynglŷn â sut i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil yn y llys teulu. Adolygwch y wybodaeth yn rheolaidd mewn sesiynau goruchwyllo.

Beth mae ymchwil yn ei olygu?

Gellir diffinio ymchwil fel 'canlyniadau neu ganfyddiadau ymholiad empirig systematig, cadarn a dibynadwy' (Becker et al, 2012). Mae'r ymchwil a ddefnyddir mewn gwaith cymdeithasol seiliedig ar ymchwil yn debygol o fod yn amlddisgyblaethol, yn seiliedig yn fwyaf arbennig ar iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ac ar ystod eang o ddulliau – ymchwil arbrofol a gwerthusol, ymchwil meintiol ac ansoddol, cyfodol ymchwil ac astudiaethau unigol.

OFFERYN 5

Defnyddiwch yr offeryn hwn i'ch helpu i chwilio am astudiaethau ymchwil mewn cronfeydd data ar-lein fel Social Care Online ar www.scie-socialcareonline.org.uk Mae hwn yn ddefnyddiol iawn pan nad oes adolygiadau llenyddol cyfredol, er enghraifft.

Mae'n bwysig defnyddio adolygiadau o ymchwil yn hytrach nag astudiaethau unigol. Er bod adolygiadau'n defnyddio nifer o wahanol ddulliau ac y gallant

fod yn fwy neu'n llai 'systematig', yn gyffredinol bydd mwy o hygyrdd a gwerth os ydych yn defnyddio canfyddiadau' sy'n cael eu hailadrodd ar draws astudiaethau yn hytrach na rhai sy'n dod o un astudiaeth yn unig, yn enwedig os ar raddfa fach neu'n idiosyncratig mewn unrhyw ffordd.

Gwerthuso ymchwil

Nid yw pob ymchwil yn hafal a byddwch yn gweld bylchau yn fuan wrth chwilio am astudiaethau trylwyr a dibynadwy o safon uchel. Mae cysyniad 'y dystiolaeth orau sydd ar gael' yn un ddefnyddiol wrth gydnabod hyn. Wrth feddwl sut i ddefnyddio ymchwil yn eich ymarfer, bydd asesu ansawdd ymchwil yn bwysig bob amser. Mae llawer o fframweithiau a all helpu yma, ac mae'r Rhaglen Sgiliau Arfarnu Beirniadol (CASP – gweler www.casp-uk.net) yn lle gwych i ddechrau.

Mae elfennau ansawdd a dderbynnir yn gyffredinol, ac a fydd yn berthnasol mewn ffyrdd gwahanol i wahanol fathau o astudiaethau, yn cynnwys y canlynol:

- > A yw amcanion yr ymchwil yn glir.
- > A yw'r dulliau'n cael eu disgrifio'n glir ac ai dyma'r dulliau priodol i roi sylw i'r amcanion.
- > Maint y sampl ac a yw wedi'i gasglu'n systematig.
- > Defnyddio offerynnau ymchwil sydd wedi'u dilysu neu ddulliau systematig eraill.

- > Defnyddio dulliau dadansoddi priodol.
- > Hygrededd yr hawliadau ac a ydynt yn cael eu cefnogi gan y data.
- > A yw'r ymchwil yn seiliedig ar ymchwil a theori sy'n bodoli'n barod.

Mae ymchwil cymdeithasol yn seiliedig ar waith carfannau o feddylwyr. Mae'r gwaith hwn yn esblygu o hyd a bydd gan bob ymchwil fframwaith damcaniaethol penodol neu ymhlyg. Mae'r berthynas rhwng theori gymdeithasol ac ymchwil cymdeithasol yn gymhleth, ond mae'n bwysig bod yn effro i'r fframweithiau damcaniaethol sy'n sail i ymchwil a'u goblygiadau. Mae gallu gwerthuso ymchwil yn feirniadol yn ysgogi ymchwilio ac yn codi cwestiynau pwysig yn ymwneud â gwerthoedd a moeseg.

OFFERYN 16

Bydd yr offeryn hunanarchwilio hwn yn eich helpu i asesu pa mor hyderus rydych chi'n teimlo am ddarn penodol o ymchwil. Gellir ei ddefnyddio hefyd i'ch helpu i baratoi ar gyfer croesholiad.

Defnyddio ymchwil mewn achosion unigol

Mae'r prosesau gwybyddol sy'n ymwneud â defnyddio ymchwil mewn achosion unigol yn gymhleth, yn anaml iawn y maent yn dilyn llinell syth, ac mae'n syndod cyn lleied o sylw sy'n cael ei roi iddynt mewn llenyddiaeth

am ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Mae prosesau amrywiol y gallech eu defnyddio er mwyn i ymchwil fod yn sail i'ch gwaith ar achos unigol:

- > Drwy bolisiau a gwasanaethau lleol a allai fod yn seiliedig ar ymchwil – er enghraifft, penderfyniadau yn ymwneud â chyrraedd y trothwy, neu 'normau' asiantaeth ar gyfer trefniadau cyswllt.
- > Drwy fframweithiau, protocolau, asesiadau neu offer eraill sy'n seiliedig ar ymchwil – er enghraifft rhestrau gwirio er mwyn asesu difrifoldeb trais domestig neu holiaduron neu offer asesu safonedig.
- > Drwy ddefnyddio theori sy'n seiliedig ar ymchwil – er enghraifft, defnyddio llwybrau datblygiad plant normadol fel meincnod i asesu datblygiad plentyn unigol rydych yn gweithio gydag ef.
- > Drwy ogwydd ehangach at ymchwil sy'n sail i'ch cywreindrwydd proffesiynol a'ch dyfarniadau drwy gydol achos – er enghraifft, ymwbyddiaeth gefndir o'r ffactorau sy'n gwneud lleoliad gyda pherthnasau yn fwy neu'n llai tebygol o lwyddo, neu sut mae trais domestig yn effeithio ar blant.
- > Drwy chwilio am ymchwil i ateb cwestiynau penodol sy'n codi mewn achos – er enghraifft, angen gwybod mwy am fater rydych yn llai cyfarwydd ag ef (er enghraifft salwch wedi'i ffugio neu anorecsia mewn oedolyn gwrywaidd, neu ynglŷn â'r

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

risgiau penodol sy'n codi pan mae salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau'n dod i gysylltiad â'i gilydd).

Ym mhob un o'r prosesau hyn, rydych hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth seiliedig ar ymarfer a'r hyn rydych yn ei weld a'i glywed gan y teulu – felly rydych yn symud rhwng gwahanol brosesau gwybyddol a gwahanol ffononellau ystyr a dealltwriaeth.

OFFERYN 9

Defnyddiwch yr offeryn hwn i adolygu dyfarniadau sydd wedi cael eu gwneud yn ddiweddar yn eich llys teulu ac i ystyried pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

OFFERYN 10

Bydd yr offeryn hwn yn eich helpu i fyfyrto ar ansawdd tystiolaeth yn eich adroddiadau llys. Gellir ei ddefnyddio hefyd mewn sesiynau mentora a goruchwyllo ac mewn trafodaethau tîm.

OFFERYN 15

Bydd yr offeryn hwn yn helpu gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a goruchwylwyr i feddwl sut y gallant sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cael mynediad at negeseuon ymchwil cyfredol.

Byddai'n amhosibl, ar ddechrau achos, gweithio eich ffordd drwy'r llenyddiaeth sy'n nodi'r canfyddiadau ymchwil

allweddol ar gyfer pob un o'r materion y mae eich achos yn ymwneud â hwy – felly mae eich gwybodaeth fewnblanedig ac anymwybodol bron ar adegau o ymchwil yn agwedd hollbwysig ar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Er hyn, po fwyaf y gallwch wneud eich defnydd o ymchwil yn ymwybodol ac yn benodol, yna po fwyaf hyderus y byddwch a pho orau y gallwch arddangos y wybodaeth hon yn y llys. Mae hyn hefyd yn golygu mai eich sgiliau wrth ddefnyddio ymchwil i ddadansoddi a phwysu a mesur tystiolaeth sy'n allweddol (yn hytrach na negeseuon ymchwil penodol ar faterion arbennig).

Meddwl yn feirniadol a gofyn cwestiynau

Mae defnyddio ymchwil yn rhan o broses ehangach o feddwl yn feirniadol. Yn anaml iawn y bydd ymchwil yn cyfeirio'n bendant at benderfyniadau neu ymyriadau arbennig, felly mae'n fwy defnyddiol er mwyn gofyn cwestiynau ynglŷn ag achos yn hytrach na disgwyl y bydd yn rhoi atebion pendant.

Wrth feddwl sut y mae ymchwil yn berthnasol i achos arbennig gallech ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau tebyg i'r rhai isod – ac yna meddwl am yr atebion iddynt:

- > Beth yw'r canlyniadau datblygiad plant nodweddiadol ar gyfer plentyn o'r oed hwn? Pa rai mae'r plentyn hwn yn ymddangos nad yw wedi eu cyrraedd?

- > Pa theorïau allai helpu i egluro'r hyn rydw i'n ei weld? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthyf am esboniadau posibl a sut y gallaf roi cefnogaeth ddefnyddiol i'r teulu?
- > Pa esboniadau posibl eraill sydd yna dros yr hyn rydw i'n ei weld? Beth arall mae angen i mi ei ystyried fel bod gennyf ddealltwriaeth gyflawn?
- > Beth yw'r risgiau i'r plentyn sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau ei deulu? Pa effeithiau rydw i'n ceisio eu hosgoi a sut fyddwn i'n gwybod a ydynt yn digwydd ai peidio? Pa ffactorau sy'n achosi risg benodol i'r plentyn hwn?
- > Beth yw'r ffactorau amddiffynnol sydd ar waith? Beth allai wneud y plentyn a'r teulu hwn yn fwy gwydn? Sut alla i gefnogi hynny?
- > Am ba ganlyniadau y dylwn i fod yn chwilio? Beth mae angen iddo newid yn y teulu hwn er mwyn sicrhau'r canlyniadau hynny? Pa dystiolaeth sydd yna o'r tebygolrwydd y bydd y teulu'n gallu newid?
- > Pa ddulliau allai fod yn effeithiol er mwyn helpu'r teulu hwn? Beth yw'r rhwystrau tebygol a allai atal y teulu rhag gallu cael a gwneud defnydd o'r help y mae arnynt ei angen? A sut alla i eu helpu i oresgyn y rhwystrau hynny?

Cymhwysedd canfyddiadau ymchwil

OFFERYN 18

Defnyddiwch yr offeryn hwn i'ch helpu i feddwl pa mor gymwys yw canfyddiadau ymchwil i'ch achos.

Mae hefyd yn bwysig ystyried pa mor gymwys yw canfyddiadau ymchwil i'r achos sydd dan sylw. Yn y bôn, mae negeseuon ymchwil yn defnyddio sampl i ffurfio syniadau cyffredinol am boblogaeth, ac mae'n anorfod y bydd amrywiant wrth ystyried a yw canfyddiadau penodol wedi digwydd ac ymhle y maent wedi digwydd. O ganlyniad, mae eu defnydd yn seiliedig ar debygoliaeth: maent yn awgrymu beth allai ddigwydd yn eich achos chi ar sail yr hyn sydd wedi digwydd mewn achosion eraill.

OFFERYN 8

Defnyddiwch yr offeryn hwn i fyfyrïo ar natur negeseuon ymchwil a sut y maent yn berthnasol i'ch gwaith yn y llys teulu. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer hunanfyfyrïo neu mewn hyfforddiant grŵp.

Gall hyn fod yn dipyn o her! Ond byddai cymhwyso canfyddiadau ymchwil mewn ffordd syml ac anfeirniadol mewn achos yn gallu cael ei ystyried yn fath o stereoteipio, a gallai olygu eich bod yn cael eich herio yn y llys.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Cefnogaeth sefydliadol i ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Mae gan bob gweithiwr cymdeithasol gyfrifoldeb proffesiynol unigol i gadw i fyny ag ymchwil ac i'w ddefnyddio yn ei waith ei hun. Er hyn, mae cefnogaeth sefydliadol i ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig hefyd er mwyn iddo fod yn llwyddiannus.

CLODDIO'N DDYFNACH

Gellir defnyddio'r cyhoeddiadau hyn gan Research in Practice i helpu i ddatblygu a sefydlu cefnogaeth sefydliadol i ymarfer seiliedig ar dystiolaeth:

- > **Using research: Tools to support evidence-informed practice (2014)** – bydd hwn yn helpu gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr i sefydlu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn eu timau a'u sefydliad
- > **Organisational audit for evidence-informed practice (2012)** – offeryn archwilio er mwyn meincnodi i ba raddau y mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei sefydlu a chreu cynllun gweithredu effeithiol ar gyfer newid
- > **Firm Foundations: A practical guide to organisational support for the use of research evidence (2006)**
- > **Leading Evidence-Informed Practice (2007)** – pecyn adnoddau sy'n

canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen er mwyn arwain gwaith sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r rhain i'w gweld ar: www.rip.org.uk/resources/publications

mae cefnogaeth sefydliadol effeithiol yn golygu:

Rhoi arweiniad strategol:

- > Datblygu a chyfathrebu gweledigaeth ar gyfer ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.
- > Darparu cyfarwyddyd strategol yn nodi sut mae cyrraedd yno.
- > Uwch arweinwyr yn modelu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn eu gwaith eu hunain.
- > Sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael.

gosod disgwyliadau:

- > Egluro'n glir wrth yr holl staff beth a ddisgwylir, gan gynnwys ymgorffori ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn swydd-ddisgrifiadau, manylbau person a fframweithiau cymhwysedd.
- > Cynnwys ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn sesiynau goruchwylio, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant.
- > Gwneud defnyddio ymchwil yn rhan o arferion gweithio.
- > Defnyddio rolau uwch ymarferydd i hybu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

annog dysgu o ymchwil:

- > Datblygu diwylliant o ddysgu

mewn sefydliad sy'n gofyn cwestiynau iddo'i hun ac yn edrych ar dystiolaeth er mwyn eu hateb.

- > Defnyddio ymchwil i arbrofi, arloesi a gwerthuso.
- > Rhannu gwybodaeth broffesiynol, gydag unigolion, o fewn timau unigol a rhwng gwahanol dimau (mae cyfarfodydd tîm yn ffordd dda o rannu ymchwil a sut i'w ddefnyddio).
- > Gwneud cysylltiadau gyda phrifysgolion lleol neu ganolfannau ymchwil eraill a gyda rhwydweithiau ymchwil rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

gwella mynediad at ymchwil:

- > Cefnogi mynediad uniongyrchol staff at adnoddau ymchwil ar-lein.
- > Sicrhau bod adnoddau llyfrgell a hyfforddiant ar gael, lledaenu adnoddau ymchwil a chanfod negeseuon ymchwil allweddol mewn adnoddau mewnol.

cefnogi ymchwil a gwerthuso lleol:

- > Defnyddio data gweinyddol a monitro, cynnal ymchwil ymhlith teuluoedd lleol, staff a phartneriaid, a myfyrio ar adborth defnyddwyr.
- > Cymhwyso negeseuon o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

CLODDIO'N DDYFNACH

I weld enghreifftiau o gymhwyso negeseuon o Adolygiadau Ymarfer Plant, gweler:

- > **Polisi Diogelu Plant Anabl Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (2017)**³
- > **Llwybr Cyn Geni Aml-asiantaeth Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (2016)**⁴

CLODDIO'N DDYFNACH

- > **CASCADE: Mae Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghaerdydd yn dod ag ymchwilwyr gofal cymdeithasol plant at ei gilydd i hybu tystiolaeth a gwasanaethau cefnogi er mwyn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd yng Nghymru. Mae eu hymchwil a'u papurau briffio i'w gweld yn: <http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/>.**
- > **Am enghreifftiau sy'n dangos sut i godi negeseuon ymarfer lleol o ffynonellau cenedlaethol, gweler:**
 - **AGGCC (2016) Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**⁵
 - **Wijedasa a Selwyn (2014) Beyond the adoption order: An investigation of adoption disruption in Wales.**⁶

³ <http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2015/03/Bwrdd-Deogelu-Gogledd-Cymru-Polisi-Diogelu-Plant-Anabl.pdf>

⁴ www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2016/11/160909-Multi-Agency-Pre-Birth-Pathway-V1.0.docx

⁵ <https://llyw.cymru/docs/cssiw/report/161221careplancy.pdf>

⁶ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/140603adoptionen.pdf>

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau fel rhan o Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol mewn Plentynod yng Nghymru sy'n ceisio darganfod pa mor gyffredin yw profiadau niweidiol yn ystod plentynod ym mhoblogaeth oedolion Cymru a pha effaith y mae'r profiadau hyn yn ei gael ar iechyd a lles pobl yn ystod eu hoes. Ewch i: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518>



FFOCWS AR YMARFER

Cyfarfodydd ymarfer wythnosol gyda chyfreithiwr yr awdurdod lleol

Ym mlynnyddoedd cynnar y rhaglen ddiwygio cyfiawnder teuluol sefydlodd llawer o awdurdodau lleol gyfarfodydd ymarfer rheolaidd rhwng ymarferwyr gwaith cymdeithasol, rheolwyr a thimau cyfreithiol i drafod materion yn codi mewn cysylltiad ag achosion cyn mynd i'r llys, y rhai yn y broses cyn-achos neu'r rhai sy'n debygol o gael eu derbyn i'r system. Sefydlwyd y cyfarfodydd fel rhan o ymgyrch ehangach i wella ymarfer ac, yn fwyaf arbennig, i ddarparu gwybodaeth a gwella dealltwriaeth ymarferwyr o drothwyon llysoedd.

Mae'r ymarferwyr yn trafod materion trothwy ac yn gofyn am gyngor er mwyn canfod a oes angen y broses cyn-achos, neu mewn gwirionedd a yw'n bosibl bod angen camau brys. Mae'r cyfarfodydd yn fforwm i ddod â negeseuon yn ôl o'r llys am gwestiynau yn ymwneud â rheoli achosion neu ansawdd adroddiadau gwaith cymdeithasol, er enghraifft. Yn Sir Benfro, llwyddodd y cyfarfodydd i fynd i'r afael â'r posibilrwydd o oedi mewn achosion esgeulustod. Roedd y cyfarfodydd yn helpu'r ymarferwyr i 'fapio'n

ôl' a gweld beth sydd wedi cael ei wneud a phenderfynu a yw achos yn cyrraedd y trothwy ar gyfer achos llys. Arweiniodd gwelliannau mewn rheoli achosion i ddechrau at gynydd mewn achosion llys gan fod yr awdurdod lleol yn gallu dangos o'i waith cyson gyda theuluoedd nad oedd unrhyw newid wedi bod yn y rianta mewn rhai achosion esgeulustod hirdymor.

Defnyddiwyd y grŵp i fynd ag ymarferwyr drwy eu dadansoddiad. Er bod hyn yn gallu bod yn anghyfforddus ar brydiau, mae'n darparu lle diogel i ymarferwyr baratoi ar gyfer y llys ac i weld gwendidau a gweithio arnynt. Mae'r cyfarfodydd yn arbennig o fuddiol i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwysu, gan eu bod yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am drothwyon llys, gwella eu dadansoddiad a sicrhau eu bod yn cyflwyno tystiolaeth berthnasol yn gywir ac yn gryno.

Er bod y cyfarfodydd yn gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran amser staff – un prynhawn yr wythnos ar gyfer pob rheolwr gofal cymdeithasol plant ac un cyfreithiwr awdurdod lleol – roeddent yn arwain at welliannau mewn ymarfer a rhannu perchnogaeth dros benderfyniadau ar draws y tîm rheoli. Roeddent yn helpu i nodi anghenion hyfforddi ychwanegol ymarferwyr rheng flaen ac roedd yr hyn a ddysgwyd drwy'r cyfarfodydd yn sail i gomisiynu a strwythuro gwasanaethau.



FFOCWS AR

YMARFER

Fforymau rhyng-broffesiynol yn cael eu harwain gan farnwyr

Un o ddyheadau'r rhwydwaith Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol oedd datblygu fforymau rhyng-broffesiynol fel bod modd rhannu dysgu rhwng gweithwyr proffesiynol yn y llys teulu. Mewn gwirionedd, mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn amrywio ledled Cymru a Lloegr.

Mae Manceinion Fwyaf yn enghraifft gref o Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol sy'n dal i gefnogi trafodaethau a dysgu rhyng-broffesiynol, gan gynnal cynadledau lleol ar feysydd allweddol sydd o ddiddordeb i weithwyr llys proffesiynol, fforymau rheolaidd ar gyfer barnwyr ac arweinwyr awdurdodau lleol a chwarae rhan weithredol mewn cynlluniau ymchwil cenedlaethol a lleol.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Adnoddau allweddol

- > **CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghaerdydd:**
<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/>
- > **Research in Practice:**
www.rip.org.uk/resources/publications/
- > **Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth:**
www.scie.org.uk/children
- > **Adolygiadau ymchwil yr EPPI-Centre:** <https://eppi.ioe.ac.uk/cms/Default.aspx?tabid=56>
- > **NSPCC:** www.nspcc.org.uk
- > **CoramBAAF:**
<https://corambaaf.org.uk/books>
- > **Bwletinau Cyfreithiol Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru):** www.afacymru.org/index.php/en/professionals/legal-en/afa-cymru-legal-bulletins
- > **Canllawiau gofal cymdeithasol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE):** www.nice.org.uk/guidance/published?type=sc
- > **Cochrane Library:**
www.cochranelibrary.com
- > **Llyfrgell Adolygiadau Systematig Campbell Collaboration:**
<https://campbellcollaboration.org/campbell-systematic-reviews.html>

Mae'r prif gronfeydd data mynediad agored y gellir eu chwilio yn cynnwys:

- > **Gwasanaethau Tystiolaeth NICE, yn cynnwys tystiolaeth a'r arferion gofal cymdeithasol gorau:**
www.evidence.nhs.uk
- > **MEDLINE:**
www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed
- > **Social Care Online:**
www.scie-socialcareonline.org.uk
- > **Llyfrgell NSPCC:**
<https://learning.nspcc.org.uk/services/library-catalogue/>

Testun gwreiddiol Lewis J (2012).

Diweddarwyd ac addaswyd ar gyfer Cymru gan Doughty J (Ysgol y Gyfraith, Caerdydd) a James A (Cyngor Gofal Cymru) (2013).

Diweddarwyd y testun cyfredol gan Doughty J a Davies N (2018).

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

© Research in Practice a Gofal Cymdeithasol Cymru 2018

Golygu: Steve Flood a Susannah Bowyer
Dylunio:

Mae Research in Practice yn adran o Ymddiriedolaeth Dartington Hall sydd wedi'i chofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen. Rhif Cwmni: 1485560
Rhif Elusen: 279756 Rhif TAW: 402196875
Swyddfa Gofrestredig: The Elmhirst Centre, Dartington Hall, Totnes TQ9 6EL